Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cyllid ychwanegol er mwyn Paratoi i Weithredu Deddf a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol 2025-26

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 30 Medi 2025 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2025/20 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg bellach |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb |
| **Mwy o wybodaeth:** | Gareth Lanagan \| Buddsoddiadamonitro@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi'r trefniadau i Medr ddarparu **£700,000** o gyllid ychwanegol i sefydliadau addysg bellach (AB), ac amseriad hynny. Pwrpas y cyllid yw ymestyn am flwyddyn ychwanegol y cyllid paratoi i weithredu'r Ddeddf a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn ymwreiddio gweithgareddau a gyflawnwyd mewn blynyddoedd cynt. Bydd sefydliadau'n gallu cyflawni gweithgarwch rhwng mis Ebrill 2025 a mis Gorffennaf 2026.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol o £700,000 i Medr ym mlwyddyn ariannol 2025-26 er mwyn cynorthwyo sefydliadau i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei dalu'n llawn mewn un swm ym mis Hydref 2025. Gellir cyflawni gweithgarwch drwy gydol y flwyddyn academaidd, ond mae Medr yn disgwyl i sefydliadau ymrwymo'r gwariant o fewn blwyddyn ariannol 2025-26.

**Symiau ychwanegol o gyllid, amseriadau a dibenion**

Dylai'r cyllid helpu i feithrin capasiti a gweithredu camau a fydd yn hyrwyddo dulliau effeithiol o fodloni anghenion pobl ifanc ag ADY a chyfrannu at ddarparu system addysg gwbl gynhwysol, lle caiff pob dysgwr gefnogaeth i gyrraedd ei botensial.

Bwriedir i'r cyllid ar gyfer paratoi i weithredu’r Ddeddf a'r Cod ADY ychwanegu at gyllid arall a ddyrannwyd, ac nid yw'n disodli'r brif ffynhonnell o gyllid i sefydliadau. Ni ddylai ychwaith fod yn ffactor sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i dderbyn dysgwyr ai peidio. Rhaid i sefydliadau gadw at y Canllawiau ar gyfer Paratoi i Weithredu'r Ddeddf a'r Cod ADY ar Wefan Medr.

Cyfrifir y cyllid yn seiliedig ar gyfran y sefydliad o gyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol ac fe'i tanategir â dyraniad cychwynnol o £40,000 fesul sefydliad.

| | **Cyfanswm dyraniad Blwyddyn Ariannol 2024/25 £** | **Cyfanswm dyraniad Blwyddyn Academaidd 2025/26 £** | **Gwahaniaeth o gymharu â dyraniad Blwyddyn Academaidd 2024/25 £** | **Canran y gwahaniaeth %** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Addysg Oedolion Cymru | 43,415.00 | 43,418.00 | 3 | 0.01% |
| Coleg Penybont | 49,363.00 | 49,181.00 | (182) | -0.37% |
| Coleg Caerdydd a’r Fro | 62,176.00 | 62,443.00 | 267 | 0.43% |
| Coleg Cambria | 62,095.00 | 62,029.00 | (66) | -0.11% |
| Coleg Gwent | 66,150.00 | 65,709.00 | (441) | -0.67% |
| Coleg Sir Gâr | 51,830.00 | 51,793.00 | (37) | -0.07% |
| Coleg y Cymoedd | 57,935.00 | 59,210.00 | 1,275 | 2.20% |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 55,950.00 | 55,665.00 | (285) | -0.51% |
| Grŵp Llandrillo Menai | 59,849.00 | 59,818.00 | (31) | -0.05% |
| Grŵp NPTC | 54,006.00 | 53,619.00 | (387) | -0.72% |
| Coleg Sir Benfro | 47,162.00 | 47,098.00 | (64) | -0.14% |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 44,187.00 | 44,178.00 | (9) | -0.02% |
| Y Coleg Merthyr Tudful | 45,882.00 | 45,839.00 | (43) | -0.09% |
| | **700,000.00** | **700,000.00** | | |

Gellir cyflawni gweithgarwch drwy gydol y flwyddyn academaidd, ond mae Medr yn disgwyl i sefydliadau ymrwymo'r gwariant o fewn blwyddyn ariannol 2025-26.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**